# 4.3 Cynllun Gweithredu - Enghraifft

| **Thema (ac is-thema)** | **Effeithiau Presennol y Tîm** (effeithiau cadarnhaol a negyddol - unigol a'r tîm - disgrifiwch yr effaith) | **Cam Gweithredu 1 – Beth fyddwch chi'n ei wneud nawr** (Rhowch fanylion am **lefel y cyfrifoldeb a'r amserlen** weithredu. Pwy fydd yn arwain? Ychwanegwch golofnau yn ddiweddarach ar gyfer camau gweithredu a chanlyniadau) | | | **Cyfleoedd –** Wedi'u diffinio'n llai eglur na'r camau gweithredu ond rhywbeth y gellir ymchwilio iddo | **Uchelgeisiau –** Nodau wedi'u diffinio'n eglur megis "di-garbon erbyn 2050" |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datgarboneiddio** | | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **I'w gwblhau erbyn** | | |
| Teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith | Mae pawb yn gweithio gartref ar hyn o bryd ond fel arfer bydd hanner y tîm yn gyrru i'r gwaith ar eu pen eu hunain. Mae tri yn beicio a'r gweddill yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae gyrru i'r gwaith yn creu ansawdd aer gwael ac yn allyrru nwyon tŷ gwydr. | 1. Arweinydd y tîm i ddadansoddi'r rhaglen waith a rhoi gwybod pwy sy'n cael gweithio gartref a phryd ar ôl Covid. Creu rota gweithio gartref. | Arweinydd y tîm | Mai 2021 | Perswadio'r sefydliad i ddarparu "Cynllun Beicio i'r Gwaith" Llywodraeth y DU i helpu gyda'r gost o newid i feicio. | Dim allyriadau yn deillio o gymudo erbyn 2023 |
| | | 2. Bydd y rhai ohonom sy'n gyrru ac yn gallu defnyddio ffyrdd amgen yn ymrwymo i feicio, cerdded neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus o leiaf unwaith yr wythnos gyda'r nod o roi terfyn ar yrru i'r gwaith yn gyfan gwbl | Cydweithwyr penodol | O fis Ebrill 2021 ymlaen | Pob un ohonom yn cytuno i beidio â phrynu car petrol/diesel byth eto. Mae gan X glwb car y gall rhai ohonom ei ddefnyddio. Jane i ymchwilio ac adrodd yn ôl. | Dim allyriadau yn deillio o gymudo erbyn 2023 |
| Ffynhonnell ein trydan | Pawb yn gweithio gartref. Dim ond 2 ohonom sydd ar dariff gwyrdd go iawn. | Pob un ohonom i edrych ar wefan 'big clean switch' ac i geisio newid ein cyflenwr bil trydan | Pawb | Nawr | | |

| Bioamrywiaeth – Gwyrdroi'r Argyfwng Byd Natur | | Cam gweithredu | Arweinydd | I'w gwblhau erbyn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deunyddiau papur a deunyddiau traul swyddfa – ffynonellau a gwaredu | Rydym yn creu gormod o wastraff plastig gartref ac yn y swyddfa fel arfer. Mae llawer ohonom yn prynu dŵr a diodydd eraill mewn poteli plastig untro. Mae plastig yn creu llawer o ddifrod i ecosystemau'r cefnforoedd. | 1. Ymrwymo i beidio â defnyddio poteli diod plastig untro gartref ac yn y swyddfa. Bydd pob un ohonom yn prynu potel fetel y gellir ei hailddefnyddio. | Pawb | Nawr | Mae'r tîm caffael eisoes o dan bwysau i wneud newidiadau– amser da i drafod dileu plastig o'r gadwyn gyflenwi. | Swyddfa / cartref di-blastig erbyn 2022 |
| | Nid yw ein papur wedi'i ardystio gan Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC). Mae'n cynnwys rhywfaint o ddeunydd wedi'i ailgylchu ond daw'r mwydion o goedwigoedd newydd sbon | Perswadio'r sefydliad i newid i bapur FSC neu bapur wedi'i ailgylchu 100% – ymchwilio i gostau'r ddau opsiwn hwn | Martin | Nawr | | |
| Y bwyd rydym yn ei fwyta gartref ac yn y gwaith | Mae'r rhan fwyaf ohonom yn prynu cinio mewn cynwysyddion plastig heb edrych ar darddiad y cynhwysion e.e. olew palmwydd sydd heb ei ardystio. | Bydd pob un ohonom yn anelu at wneud cinio gartref | Pawb | Yn ystod ac ar ôl y cyfnod clo | | |
| | | Byddwn ond yn defnyddio te a choffi Masnach Deg neu gynnyrch tebyg (gartref ac yn y gwaith) | Pawb | Nawr | | Bod yn dîm Masnach Deg ardystiedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli'r ardd | Nid yw'r rhan fwyaf ohonom yn cefnogi byd natur yn ein gerddi ar wahân i Ceri sy'n frwdfrydig iawn | Bydd pob un ohonom yn dysgu beth y gallwn ni ei wneud i wella byd natur gartref – bwydo adar, plannu blodau cynhenid, gwestai i drychfilod, tyllau a gorchudd i ddraenogod | Gwybodaeth gan Ceri | Nawr | Gall pob un ohonom dynnu llun o'r newidiadau a'r gwahaniaeth rydym yn ei wneud a'i rannu â thimau eraill | Pawb i gyfrannu at Gwylio Adar yr Ardd 2022 |
| | Mae rhai o'r tîm yn awyddus i roi rhywbeth yn ôl i fyd natur ond nid ydynt yn gwybod sut i wneud hynny | Gallwch ganfod sut i wirfoddoli yn eich ardal leol. Gallwch roi eich amser a'ch sgiliau i ofalu am fywyd gwyllt neu i gefnogi grŵp natur lleol | James | | Gallwch ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli yn Ymddiriedolaethau Natur Cymru neu gallwch gynnal diwrnod gwirfoddoli corfforaethol ar gyfer eich tîm er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion cadwraeth. Mae'r RSPB yn cynnal diwrnodau gwirfoddoli corfforaethol. | Pawb yn y tîm i wirfoddoli'n rheolaidd, er mwyn gallu rhoi rhywbeth yn ôl i fyd natur |
| **Dim Gwastraff** | | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | | |
| Yr eitemau rydym yn eu defnyddio | Nid oedd rhai ohonom yn gwybod sut i atgyweirio'r eitemau rydym yn eu defnyddio pan fyddant yn torri | Chwiliwch am 'gaiff trwsio' lleol i atgyweirio eitemau yn lle prynu rhai newydd. Gallem annog eraill i wneud yr un peth hefyd a thrwsio pethau | | | Dysgu sut i drwsio eitemau penodol a rhannu eich gwybodaeth ag eraill | Osgoi bod yn rhan o'r gymdeithas wastraffus |
| Yr eitemau rydym yn eu prynu gartref ac yn y gwaith | Mae rhai ohonom yn sylwi faint o wastraff sy'n gysylltiedig â'r eitemau rydym yn eu prynu, yn arbennig y deunydd pacio | Chwiliwch am Siop Ddiwastraff neu Siop Ail-lenwi leol. Ein nod fydd ceisio prynu rhywfaint o gynnyrch o'r siopau lleol hyn er mwyn lleihau'r gwastraff rydym yn ei greu.<br>Gallem hefyd roi gwybod i ffrindiau a chydweithwyr am y siopau lleol | Jane fydd yn arwain hyn gan ei bod yn meddwl bod siop ddiwastraff yn ei hardal leol | Nawr | Cofiwch gadw eich jariau a chynwysyddion gwag i'w defnyddio yn y siop Ail-lenwi | Lleihau 50% o'r gwastraff rydym yn ei greu drwy siopa |